# ADRODDIADAU ARHOLWYR TAG

## TAG
## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT
### UG/Uwch

## HAF 2023

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau’r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi’r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae’r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

**Uned**
**Tudalen**


| | |
|---|---|
| UNED 1: Hybu Iechyd a Llesiant | 1 |
| UNED 2: Cefnogi Iechyd, Llesiant a Gwydnwch yng Nghymru | 4 |
| UNED 3: Safbwyntiau Damcaniaethol ynghylch Datblygiad Plant a Phobl ifanc | 8 |
| UNED 4: Cefnogi Datblygiad, Iechyd, Llesiant a Gwydnwch Plant a Phobl Ifanc | 12 |
| UNED 5: Safbwyntiau Damcaniaethol ynghylch Ymddygiad Oedolion | 17 |
| UNED 6: Cefnogi Oedolion i Gynnal Iechyd, Llesiant a Gwydnwch | 20 |


© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2023**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT**

## Sylwadau Cyffredinol

Dylid canmol canolfannau am baratoi eu hymgeiswyr yn effeithiol ar gyfer yr arholiad hwn, er gwaethaf y cyfnod heriol a gafwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dyma'r ail bapur arholiad ar gyfer y cymhwyster TAG newydd a rhoddwyd gwybodaeth ymlaen llaw i ganolfannau. Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cwblhau pob cwestiwn ar y papur arholiad a'u bod wedi neilltuo digon o amser i gwblhau'r cwestiwn olaf ar y papur, sef y cwestiwn a oedd yn cynnig y nifer uchaf o farciau.

Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant a gwnaethant ddefnydd rheolaidd o derminoleg sector-benodol. Roedd yr ystod lawn o amcanion asesu yn hygyrch, o AA1, AA2 ac AA3.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1 (a)** Roedd hwn yn gwestiwn cyntaf AA1 hygyrch. Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddiffiniadau clir a manwl o'r diffiniadau cadarnhaol a chyfannol o iechyd a llesiant. Cafwyd rhai ymatebion band marciau 4 eithriadol gan ymgeiswyr a oedd wedi defnyddio'r diffiniadau o iechyd a llesiant i ddisgrifio'r camau roedd angen i Mr Williams eu cymryd i wella ei iechyd a'i lesiant tymor hwy. Roedd yr ymatebion band marciau 1 yn dueddol o ddim ond nodi'r diffiniadau cyfannol neu gadarnhaol o iechyd, neu fel arall, o ddarparu disgrifiad cyfyngedig o'r hyn yr oedd angen i Mr Williams ei wneud er mwyn gwella ei iechyd neu ei lesiant.

**(b)** Cwestiwn AA3 oedd y cwestiwn hwn yn dilyn C1a, ac roedd yn gofyn i ymgeiswyr drafod y dull cymdeithasol o hybu iechyd gwrth-ysmygu. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i ennill marciau ar gyfer y cwestiwn hwn, ond roeddent yn dueddol o ganolbwyntio ar y dull addysgol yn hytrach na'r dull cymdeithasol a rhoddwyd marciau iddynt o fewn bandiau marciau 1 a 2. Cyflwynodd yr ymgeiswyr a gyflawnodd farciau o fewn band marciau 3 amrywiaeth o enghreifftiau er mwyn trafod y dull cymdeithasol, er enghraifft y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, cynhyrchion tybaco yn cael eu cuddio o'r golwg mewn siopau a'r rhybuddion iechyd ar becynnau o sigaréts.

**Cw.2** Cwestiwn yn rhoi marciau am bwyntiau a oedd yn gofyn am amlinelliad o dair o egwyddorion y strategaeth Gofal Iechyd Darbodus ar gyfer amcan asesu AA1 oedd y cwestiwn hwn. Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn a llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i gael y 6 marc llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.3** Cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn ar y cyfan, ac esboniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr fanteision menter neu ymgyrch briodol gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu plant a / neu bobl ifanc yng Nghymru. Roedd ymatebion poblogaidd yn cyfeirio at Dechrau'n Deg, Y 1,000 Diwrnod Cyntaf, Cynllun Gwên a Chynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS). Llwyddodd nifer o ymgeiswyr i gyflawni graddau o fewn bandiau marciau 3 a 4 drwy gyflwyno esboniad manwl o'r fenter/ymgyrch dan sylw a'i manteision i iechyd, llesiant a gwydnwch plant a/neu bobl ifanc yng Nghymru.
Yn anffodus, gwnaeth rhai ymgeiswyr gamgymeriad wrth ddilyn cyfarwyddiadau'r cwestiwn hwn drwy nodi deddfwriaeth yng Nghymru fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hytrach nag ymgyrch neu fenter.

**Cw.4** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ddadansoddiad AA3 o'r manteision a'r cyfyngiadau i sefydliadau elusennol sy'n gweithio yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant. Cafodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr farciau o fewn bandiau marciau 1 a 2 gan mai dim ond ar y manteision neu'r cyfyngiadau i'r elusennau y gwnaethant ganolbwyntio. Fodd bynnag, cyflwynodd nifer o ymgeiswyr ymatebion mwy cytbwys, drwy gyflwyno'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n wynebu sefydliadau elusennol ac wedyn eu dadansoddi, gan gyfeirio at enghreifftiau penodol.

**Cw.5** **(a)** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud ag amcan asesu AA1 ac yn gofyn am ddisgrifiad o sut mae anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant yn gallu bodoli oherwydd rhyw unigolyn. Yn gyffredinol, rhoddwyd marciau o fewn band marciau 1 i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr a ganolbwyntiodd ar rôl y bwlch cyflogau cyflogaeth rhwng dynion a menywod gan arwain at incwm is, deiet gwaeth a ffordd o fyw waeth. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr yn y bandiau marciau uchaf y gwahaniaeth rhwng seicoleg dynion a menywod a'r ffaith bod menywod yn fwy tebygol o fynd i weld eu meddyg ac i fynychu apwyntiadau sgrinio, felly caiff achosion o salwch a chlefydau eu diagnosio a'u trin yn gynharach, gan esbonio'r disgwyliad oes uwch o gymharu â dynion.

**(b)** Cafwyd atebion da i'r cwestiwn AA1 a chafodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn drwy grynhoi dau ffactor economaidd-gymdeithasol a fyddai'n gallu effeithio ar unigolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r fanyleb, a chyflwynwyd ystod gyfan o atebion posibl, megis cyfeirio at dlodi, amodau byw neu weithio, neu nodweddion personol fel oedran a grŵp ethnig.

**Cw.6** **(a)** Roedd y cwestiwn AA2 hwn yn gofyn am esboniad o sut mae rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu eithrio unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant er mwyn rhoi esboniadau manwl da iawn, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol enghreifftiau i gyflawni graddau o fewn bandiau marciau 3 a 4.

**(b)** Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am werthusiad o sut byddai iechyd corfforol yn gallu effeithio ar lesiant unigolyn. Darparodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ymateb da gan ymdrin o leiaf â'r cyswllt cyfannol rhwng llesiant corfforol a llesiant meddwl. Darparodd ymgeiswyr a gyflawnodd y bandiau marciau uchaf werthusiad gan ddefnyddio enghreifftiau o lesiant corfforol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol. Cyflwynodd ymatebion bandiau marciau 3 a 4 ddisgrifiadau gwerthusol cytbwys, gan ystyried canlyniadau cadarnhaol a negyddol yn deillio o iechyd corfforol da neu wael.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd yr ymgeiswyr a gafodd farciau o fewn band marciau 1 yn dueddol o gyflwyno tystiolaeth gyfyngedig neu o gyflwyno gosodiadau ailadroddus drwy nodi'r un peth mewn dwy ffordd wahanol: 'mae iechyd corfforol da yn hybu iechyd meddwl da' ac 'gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael'.

**(c)** Yn gyffredinol, cafwyd atebion da i'r cwestiwn AA1 ac AA3 olaf hwn, a dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gordewdra ymhlith plant, ac roeddent yn ymwybodol o rôl gwahanol ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant wrth helpu plant i gynnal pwysau corff iach. Cyflwynodd nifer o ymgeiswyr ymatebion eithriadol drwy amlinellu ystod o weithgareddau ac ymyriadau a roddwyd ar waith yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant a gwnaeth rhai ymgeiswyr gyfeiriadau cywir at rôl gweithwyr proffesiynol penodedig penodol. Ysgrifennodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ymatebion ysgrifenedig hir a gafodd hefyd eu hasesu o ran ansawdd y sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

**1.** Mae angen i ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn yn ofalus er mwyn canolbwyntio ar y canlynol:

Y marciau a roddir, er mwyn gwneud y gorau o'r amser sydd ar gael. (Mae 80 o farciau i'w hennill yn y papur arholiad hwn, sy'n cyfateb i tua 1.5 munud i bob marc.)
Ymateb i'r ferf orchmynnol gywir: ateb y cwestiwn a osodwyd – gellid annog ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu'r geiriau allweddol ym mhob cwestiwn er mwyn osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd.

**2.** Byddai o fudd i ymgeiswyr ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd, er mwyn iddynt deimlo llai o straen o bosibl yn ystod yr arholiad terfynol ac er mwyn sicrhau nad yw'n brofiad anghyfarwydd. Byddent yn dod yn fwy cyfarwydd â chymhwyso'r berfau gorchmynnol ac mae'r cynlluniau marcio yn cynnwys deunyddiau addysgu a dysgu gwerthfawr. Gall ymarfer ffug arholiadau llawn helpu ymgeiswyr i wella eu sgiliau rheoli amser ac i osgoi gwallau o ran y cyfarwyddyd yn y dyfodol.

**3.** Dylai canolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r fanyleb gyfan ar gyfer Uned 1 a gaiff ei hasesu o bosibl fel rhan o arholiadau yn y dyfodol, a bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda ohoni. Dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio geirfa a therminoleg sector-benodol, fel y nodwyd yn y fanyleb.

**4.** Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddeunyddiau a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd ac sydd ar gael ar wefannau adnoddau a gwefannau diogel HCLW er mwyn helpu athrawon ac ymgeiswyr, a dylent gyfeirio atynt. Mae'r adnoddau yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi DPP, deunyddiau asesu enghreifftiol, hen bapurau arholiad ac adroddiadau arholwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol

### Haf 2023

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 2: CEFNOGI IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH YNG NGHYMRU

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r cymhwyster TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant wedi symud i system uwchlwytho electronig ar gyfer cyflwyno'r holl ddeunydd sy'n gysylltiedig ag asesiadau di-arholiad. Nodwch yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf na fyddwn yn gallu derbyn copïau caled drwy'r post ac y bydd angen uwchlwytho'r holl waith drwy ein llwyfan electronig IAMIS.

Tasg 2 Adran F AA2 AA3 2.2.4(1) 2.2.4(b) Roedd esboniad o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth/polisi penodol, asesiad o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn wedi'u cynnwys yn yr asesiad eleni. Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn cyhoeddi manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu bolisi penodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato yn eu gwaith. Gall canolfannau ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth benodol neu'r polisi penodol ar wefan ddiogel CBAC, o dan adnoddau, ‘Tasgau Asesu Di-arholiad’.

Un o ofynion y rheoleiddwyr yw bod CBAC yn sicrhau bod unrhyw waith Asesiad Di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw’r gwaith a gyflwynir i’w asesu'n derfynol.

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y rhoddwyd marciau, yn hwyluso'r broses gymedroli wrth gyfiawnhau'r marciau a roddwyd.

Gwelwyd asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchmynnol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Roedd y tasgau yn eu trefn ac wedi'u cwblhau mewn fformat priodol ar gyfer adroddiad. Dewisodd ymgeiswyr rolau swyddi priodol o'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y rolau o fewn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyn penderfynu ar y ddwy rôl swydd.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran A – Cynnwys 2.2.3(c)**

Ymdriniwyd â 2.2.3(c) yn dda. Amlinelliadau da o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.
Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i gymhwyso'n briodol, rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw.

Mae angen i gynnwys 2.2.3(c) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn benodol, cysylltu cyfleoedd a llwybrau cyflogaeth â; chyfleoedd ar gyfer dyrchafiad neu ddilyniant, meysydd arbenigedd a/neu leoliadau daearyddol, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalen 36 y fanyleb.

**Adran B – Cynnwys 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a)**

Ymdriniwyd â 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a) yn dda. Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoliadau cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru. Mae angen i gynnwys 2.2.2(a), (ch) 2.2.4 (a) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol.

Yn arbennig, y drafodaeth am effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae'r rhestr o ddeddfwriaethau, rheoliadau a mentrau i'w gweld ar dudalennau 38-39 y fanyleb.

**Adran C (i) Cynnwys AA2 2.2.2(c)**

Ymdriniwyd â 2.2.2(c) yn dda. Esboniadau da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(c) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r technegau yn cael eu cymhwyso at arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i gyflawni band marciau uwch.

Er mwyn cyflawni'r marciau uwch, mae angen cymhwyso cynnwys AA2 2.2.2(c) yn fwy at yr ymarferwr a ddewiswyd, gan roi mwy o esboniad o'r ffordd y gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r rhestr o sgiliau a thechnegau i'w gweld ar dudalen 31 y fanyleb.

**Adran C (ii) AA2 2.2.2(b) 2.2.2(d)**

Ymdriniwyd â 2.2.2(b) 2.2.2(d) yn dda. Esboniad da o'r egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w harferion gwaith, a sut y cânt eu cymhwyso. Esboniad da o sut mae'r ymarferwr yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.
Mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(b), 2.2.2 (d) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, mae angen cymhwyso egwyddorion gofal yn fwy at yr ymarferwr a ddewiswyd i ennill marciau uwch. Mae'r rhestr o egwyddorion a gwerthoedd craidd i'w gweld ar dudalen 30 y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd.

Mae angen ymdrin â chynnwys AA2 2.2.2(b) 2.2.2(d) yn fanwl ac mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn trafod y Tîm Amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth i'r un lefel ag egwyddorion a gwerthoedd craidd cyn rhoi marciau uwch. Mae angen esbonio egwyddorion gofal mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n helpu i sicrhau gofal person/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. Mae angen esbonio gwaith amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth, a'r ffordd y mae'n cefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol.

**Tasg 2**

Cwblhawyd Tasg 2 mewn fformat priodol sef cyflwyniad, blog neu ffeithlun. Lluniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd gwaith rhai hefyd yn cynnwys nodiadau PowerPoint. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, gan helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol.

**Adran A AA2 2.2.1(c)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(c) yn dda. Esboniadau da o sut gellid nodi ac asesu dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin ag Anghenion (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol ac Ieithyddol) yr unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion wrth ymdrin â'r ffordd y gellid asesu'r anghenion hynny er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen ymdrin yn llawn â 2.2.1(c) cyn y gellir rhoi marciau uwch.

**Adran B Cynnwys AA1 AO2 2.2.1(a) 2.2.1(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(a) 2.2.1(b) yn dda. Amlinelliadau da o sut y gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut y gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch.

Ymdriniaeth dda o amlinellu canlyniadau personol a chryfderau'r unigolyn, ac ymdriniaeth dda o'r strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion ar gynnwys AA1, AA2, 2.2.1 (a) 2.2.1 (b) er mwyn cyflawni band marciau uwch. Ar gyfer AA2, bydd manylion mwy penodol sy'n amlinellu sut y gall ymarferwyr gefnogi'r unigolyn i nodi canlyniadau personol, nodi cryfderau, er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a nodi a meithrin ei wydnwch, yn helpu o ran rhoi bandiau marciau uwch.

**Adran C Cynnwys AA3 2.2.1(ch)**

Ymdriniwyd â 2.2.1(ch) yn dda. Archwiliadau da o sut y gellir cefnogi'r unigolyn i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

Ymdriniwyd â chynnwys AA3 2.2.1(ch) yn dda ac roedd wedi'i gysylltu'n fanwl â'r unigolyn. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn archwilio amrywiaeth eang o ffyrdd y gall yr unigolyn a ddewiswyd gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran Ch Cynnwys AA AO1 AO3 2.2.3(a) 2.2.3(ch)**

Ymdriniwyd â 2.2.3(a) 2.2.3(ch) yn dda. Amlinelliadau da o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant berthnasol yng Nghymru, ac ystyriaethau o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU. Rhaid annog ymgeiswyr i gysylltu cynnwys AA1, AA3, 2.2.3(a), 2.2.3(ch) â'u hunigolyn. Mae angen i gynnwys AA1, AA3, 2.2.3(a) 2.2.3(ch) gael mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyflawni band marciau uwch. Yn arbennig, ystyried sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU.

**Adran D AA2 2.2.3(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.3(b) yn dda. Esboniadau da o gynaliadwyedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. Mae angen ymdrin ag AA2 2.2.3(b) yn llawn er mwyn cyflawni band marciau uwch. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am nod pedwarplyg Cymru iachach.

**Adran Dd AA2 AO3 2.2.4(a) 2.2.4(b)**

Ymdriniwyd â 2.2.4(a) AA3 2.2.4(b) yn dda. Esboniadau da o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ac asesiad o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn. Mae angen i gynnwys AA2 2.2.4(a) gael mwy o ddyfnder ac esboniad manwl o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen i gynnwys AA3 2.2.4(b) gynnwys mwy o asesiad o'r ffordd y mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn, er mwyn rhoi band marciau uwch.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn rhoi bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalennau 79 a 80 y fanyleb.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y nodir ar dudalen 77 yn y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran a, b, c ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno gwaith.

Nodyn i atgoffa bod adnoddau i helpu i gyflwyno'r cymhwyster ar gael ar wefan DIGC.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2023**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

## UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH DATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd safon gyffredinol ymatebion ymgeiswyr i'r papur yn dda, a phrin oedd y cwestiynau lle na roddwyd unrhyw farciau a'r cwestiynau na roddwyd cynnig arnynt. Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r hyn roedd y cwestiynau yn ei ofyn, a phrin oedd yr enghreifftiau lle gwelwyd ymgeiswyr yn ymateb heb iddynt ddeall yr hyn roedd y cwestiwn yn ei ofyn. Weithiau, defnyddiodd ymgeiswyr fwy o linellau na'r nifer o linellau a neilltuwyd ar gyfer ymatebion, ond nid oedd hyn mor gyffredin ag yr oedd ar bapur y llynedd.

Dyma ail flwyddyn dyfarnu'r cymhwyster hwn ac, o gymharu â'r llynedd, roedd llai o gwestiynau na roddodd ymgeiswyr gynnig arnynt ac, ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth well o'r fanyleb ac roeddent yn gallu cymhwyso eu hatebion yn well at yr astudiaeth achos neu at ofal plant yn gyffredinol. Dylid canmol canolfannau am y gwelliannau a wnaed ganddynt yn y trefniadau addysgu a dysgu ym mhob agwedd ar y fanyleb eleni. Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar ateb pob un o'r cwestiynau ac enillwyd yr amrediad marciau llawn ar gyfer pob cwestiwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr amser a ganiatawyd ar gyfer y papur wedi arwain at ymgeisydd yn tanberfformio ac roedd yr ymatebion yn dangos bod y cyfle gan ymgeiswyr i ddangos yn llawn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fanyleb ar gyfer yr uned hon drwy'r papur. Roedd llawer o ymatebion ardderchog yn dangos bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad. Roeddent wedi rhoi atebion llawn gwybodaeth wedi'u strwythuro'n dda, gan ddefnyddio terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol/gofal plant briodol o'r fanyleb. Roedd angen i eraill ddatblygu eu gwybodaeth am dermau a chysyniadau allweddol, er enghraifft:  strategaethau yn ymwneud â'r damcaniaethau datblygu; strategaethau yn hybu ymddygiad cadarnhaol; pwrpas chwarae.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr a wnaeth yn dda yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at y cwestiynau a osodwyd mewn cyd-destun gofal plant o fewn yr astudiaeth achos ar gyfer adran A.
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o sut i gymhwyso damcaniaethau datblygiad plant at gyd-destun gofal plant.
- Dangos gwybodaeth dda am y fanyleb gan gynnwys pwrpas chwarae a'r gwahaniaeth rhwng cyfnodau a mathau o chwarae a sut y maent yn hyrwyddo datblygiad cyfannol plant. Roeddent hefyd yn gallu trafod amrywiaeth o strategaethau i gefnogi ymddygiad cadarnhaol a sut y gellid eu defnyddio mewn perthynas ag Osian.

© WJEC CBAC Ltd.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- Dangos diffyg manylder yn eu hymatebion, gan roi ymatebion cyffredinol am ddatblygiad plant mewn perthynas â PILES heb ateb y cwestiwn.
- Drysu rhwng damcaniaethwyr, er enghraifft drysu rhwng Skinner a Pavlov, Watson a Bandura neu Piaget a Vygotsky/Freud.
- Yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'r hyn roeddent wedi'i ddysgu at gyd-destunau gofal plant neu'r blynyddoedd cynnar.
- Llunio ymatebion â diffyg manylder, ac roeddent yn aml yn ddi-drefn ac yn amherthnasol i'r hyn a ofynnwyd, weithiau dim ond yn ailadrodd gwybodaeth a roddwyd yn yr astudiaeth achos yn hytrach nag ateb y cwestiwn yn adran A a chwestiwn 5.
- Drysu rhwng cyfnodau chwarae a mathau o chwarae.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** **(a)** Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn, ac roeddent yn gallu disgrifio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad yn gywir o'r astudiaeth achos, gyda llawer o ymgeiswyr yn ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn. Nododd ymgeiswyr llai llwyddiannus y ffactor ond ni wnaethant ddisgrifio sut roedd hyn yn dylanwadu ar ymddygiad Osian, dom ond ailadrodd y wybodaeth a roddwyd yn yr astudiaeth achos e.e. Y ffactor yw deiet gan fod Amy (mam Osian) yn cael trafferth fforddio bwyd maethlon.

**(b)** Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ddisgrifio rhai o nodweddion disgwyliedig datblygiad emosiynol a chymdeithasol i blentyn 2-3 oed, ond dim ond un neu ddwy nodwedd gymdeithasol ac un neu ddwy nodwedd emosiynol y gallai ymgeiswyr llai llwyddiannus eu disgrifio, neu dim ond un maes datblygu. Soniodd rhai ymgeiswyr am agweddau eraill ar ddatblygiad fel datblygiad corfforol neu ddeallusol.

**(c)** Dangosodd llawer o ymgeiswyr wybodaeth dda am amrywiaeth o strategaethau a ddefnyddir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ond dim ond un neu ddwy strategaeth y cyfeiriodd ymgeiswyr llai llwyddiannus atynt ac nid oeddent yn siŵr sut roedd y strategaethau hyn yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn perthynas â phlant ac Osian.

**Cw.2** **(a)** Dangosodd rhai ymgeiswyr ddealltwriaeth a gwybodaeth am bwrpas arsylwi gan ateb y cwestiwn yn dda mewn perthynas â sut byddai parhau i arsylwi yn gallu cefnogi cyfathrebu ac ymddygiad i Osian, a chan gynnig dadansoddiad da o sut y gall hyn helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion er mwyn datblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. Nid oedd ymgeiswyr eraill yn deall pwrpas arsylwi wrth gefnogi plant.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Ymatebodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dda gan ddangos dealltwriaeth dda o ddamcaniaeth Skinner a sut y gellid ei chymhwyso at ymddygiad plant. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i werthuso atgyfnerthu cadarnhaol ac i drafod manteision ac anfanteision defnyddio'r strategaeth hon i gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn achos Osian. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn drysu rhwng damcaniaeth Skinner a Bandura, Pavlov a Watson neu'n trafod atgyfnerthu cadarnhaol fel strategaeth ond nid mewn perthynas â Skinner.

**Cw.3 (a)** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ar y cyfan, yn galonogol iawn ac roedd gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith. Roedd yr ymatebion yn dangos bod canolfannau wedi addysgu a dysgu yn ardderchog ar gyfer y maes hwn o'r fanyleb. Perfformiodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn arbennig o dda yn y cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymgeiswyr na wnaethant berfformio cystal ymatebion nad oeddent yn cyfeirio at y patrwm datblygiad o adeg geni, dim ond nodi'r cerrig milltir datblygiadol disgwyliedig yn 3 oed neu roeddent yn rhoi disgrifiad cyffredinol o ddatblygiad iaith yn hytrach na'r patrwm datblygiad o fewn yr ystod oedran penodedig.

**(b)** Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am ddamcaniaethau Piaget ac roedd hyn yn arwydd o addysgu a dysgu o ansawdd uchel gan ganolfannau yn y maes hwn. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod yn deall *sut byddai ymarferwyr yn gallu defnyddio damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget i gefnogi datblygiad deallusol plant.* Nododd ymgeiswyr llai llwyddiannus brif bwyntiau'r ddamcaniaeth ond nid oedd eu hymatebion yn cyfeirio at sut y mae hyn yn cefnogi datblygiad deallusol. Drysodd rhai ymgeiswyr rhwng damcaniaeth Piaget a damcaniaethau eraill fel damcaniaeth Bruner neu Vygotsky.

**(c)** Roedd yr ymatebion yn dangos bod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o chwarae corfforol. Roedd yr ymgeiswyr hynny a gyrhaeddodd y bandiau uwch yn gallu cysylltu chwarae corfforol â datblygiad cyfannol yn effeithiol. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn cyfeirio at ddim ond datblygiad corfforol neu nid oeddent yn gallu cysylltu'r math o chwarae â datblygiad gan restru agweddau ar chwarae corfforol yn unig.

**Cw.4 (a)** Roedd safon yr ymatebion gan fwyafrif yr ymgeiswyr yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, pwrpas chwarae, a sut mae hynny o fudd i ddatblygiad. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn esbonio pwrpas chwarae ac yn cyfeirio at amrywiaeth o fanteision ar gyfer datblygiad plant ac yn dangos dyfnder ac ehangder yn eu hymatebion.

**(b)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dweud sut y gallai unrhyw ddau fath o chwarae gefnogi meysydd datblygiad allweddol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r mathau o chwarae. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn cyfeirio at un neu ddau fath o chwarae fel chwarae cyfochrog.

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)** Rhoddodd ymgeiswyr ymatebion da ar y cyfan am therapi chwarae. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn drysu rhwng manteision therapi chwarae a manteision chwarae yn gyffredinol ac nid oeddent yn cyfeirio at anghenion penodol.

**Cw.5** Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth fanwl am y ffactorau a allai fod yn effeithio ar ymddygiad Matthew ond ni wnaethant lwyddo cystal i drafod sut y gallai strategaeth SEAL ei helpu a'i gefnogi. Dangosodd rhai ymgeiswyr wybodaeth dda am SEAL a sut y gellir ei ddefnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc mewn ysgolion gan gymhwyso'r wybodaeth hon yn effeithiol at Matthew, ond drysodd eraill rhwng strategaeth SEAL a strategaethau cefnogi ymddygiad eraill neu gwnaethant ddisgrifio'r strategaeth heb ei thrafod mewn perthynas â Matthew.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

**1.**

**2.** Roedd mwyafrif ymatebion yr ymgeiswyr i'r cwestiynau o safon dda, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y fanyleb sy'n dangos bod y cymhwyster newydd wedi'i addysgu'n effeithiol mewn canolfannau.

**3.** Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r astudiaeth achos a'r gallu i gysylltu datblygiad ac ymddygiad y plant yn yr astudiaeth achos yn effeithiol â'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu o gynnwys yr uned, sy'n dangos bod strategaethau addysgu a dysgu effeithiol wedi'u defnyddio yn y canolfannau.

**4.** Yn aml, nid oedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus wedi ateb y cwestiwn yn llawn a dim ond rhannau o'r cynnwys a oedd yn cael ei asesu yr oedd yr ymatebion yn cyfeirio atynt e.e. Ymgeiswyr yn nodi camau a phwyntiau allweddol damcaniaeth Skinner ond yn methu â'i chysylltu ag Osian yng nghwestiwn 2b neu'n disgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar Matthew yng nghwestiwn 5, ond nid sut y byddai strategaeth SEAL *yn gallu ei helpu a'i gefnogi*.

**5.** Yn gyffredinol, roedd gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o chwarae ac agweddau ar y fanyleb sy'n ymwneud â chwarae yn llawer gwell eleni na'r llynedd. Yr adran wannaf oedd y strategaethau sy'n ymwneud â'r damcaniaethau fel Therapi Chwarae a strategaeth SEAL. Adran gryfaf y fanyleb unwaith eto oedd damcaniaethau datblygu, gydag ymgeiswyr yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth arbennig o gryf o Piaget, a Skinner, er nad oedd eu gallu i gymhwyso hynny at ddatblygiad ac ymddygiad plant cystal â'r wybodaeth am y damcaniaethau eu hunain.

**6.** Ar y cyfan, perfformiodd ymgeiswyr yn well na'r llynedd ac roedd llai o gwestiynau na roddwyd cynnig arnynt neu na roddwyd unrhyw farciau amdanynt. Llwyddodd mwy o ymgeiswyr i gyrraedd bandiau marciau 3 a 4 sy'n galonogol ac mae hynny'n adlewyrchu ymateb cadarnhaol canolfannau wrth ddatblygu'r addysgu a'r dysgu mewn perthynas â chymhwyster newydd.

© WJEC CBAC Ltd.

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

## Tystysgrif Addysg Gyffredinol

## Haf 2023

## Uwch Gyfrannol/Uwch

## UNED 4: CEFNOGI DATBLYGIAD, IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH PLANT A PHOBL IFANC

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi ateb pob cwestiwn. Er na chafodd gwaith rhai o'r ymgeiswyr ei gyflwyno ar ffurf cyflwyniad ac adroddiad, roedd y rhan fwyaf ohono'n gysylltiedig â'r sector gofal plant yng Nghymru. Defnyddiodd ymgeiswyr amrywiaeth o leoliadau yn Nhasg 1, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn briodol ac wedi'u dewis yn dda. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i ymgysylltu'n dda â'r ffordd y caiff anghenion plant a phobl ifanc eu diwallu gan leoliadau yng Nghymru ym mhob rhan o Dasg 1. Roedd y ffordd y cafodd y dasg hon ei chyflwyno yn ardderchog ar y cyfan. Yn Nhasg 2, roedd gwaith ymgeiswyr wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac roedd gwaith cyfeirnodi cywir. Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r polisïau cymdeithasol sy'n effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru a dylid llongyfarch canolfannau am y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran cyflwyniad y gwaith ac o ran ymdrechion i gymhwyso at y sector eleni.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Tasg 1

**(a)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi diffiniad defnyddiol o ofal plentyn-ganolog a phwysigrwydd gofal plentyn-ganolog o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi rhannu eu hatebion yn anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol, a chymdeithasol ac yn nodi'n glir sut y gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog i fodloni'r anghenion penodol hyn. Er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd Band 3, rhaid iddynt ddangos dealltwriaeth hyderus o sut gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog i fodloni'r anghenion cyfannol. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cymhwyso'r wybodaeth am sut roedd anghenion penodol yn cael eu bodloni at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt a chafwyd rhai ymatebion manwl a thrylwyr. Ni nododd rhai ymgeiswyr unrhyw effeithiau posibl pe na fyddai'r anghenion hyn yn cael eu bodloni ac felly roeddent wedi'u cyfyngu i fand marciau 1.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** **(i)** Llwyddodd rhai ymgeiswyr i ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn drwy ymdrin â nodweddion allweddol y cwestiwn – roedd gofyn iddynt ddisgrifio'r mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall plentyn neu berson ifanc eu profi, a rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr amrywiaeth a disgrifiadau digonol i gyrraedd band marciau 2 neu 3.

**(ii)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu esbonio effeithiau cadarnhaol a negyddol mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd ar blant a disgrifio'r cymorth cadarnhaol a roddwyd gan leoliadau i blant er mwyn hyrwyddo eu gwydnwch. Dim ond esbonio effaith mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd a wnaeth yr ymgeiswyr llai llwyddiannus heb esbonio sut roedd plant yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnodau hyn yn y lleoliad.

**(c)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu esbonio'r mathau o asesu a ddefnyddiwyd a'u pwrpas yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt; ond fe wnaeth rhai ymgeiswyr restru asesiadau heb esbonio pam byddai'r asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc yn y lleoliad. Rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y lleoliad o fewn y gwaith. Nid ymdriniodd rhai ymgeiswyr â'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y marciau y gallent eu hennill yn yr adran hon. Hefyd, dylid egluro'r egwyddorion asesu'n glir.

Rhannodd rhai ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn ddwy ran allweddol:

1. canolbwyntio ar y lleoliad penodol – y mathau a ddefnyddiwyd yn y lleoliad hwnnw a'u pwrpas – sicrhau eu bod yn ystyried sut gallai fodloni anghenion penodol a darparu cefnogaeth amserol a pharhaus.
2. canolbwyntio ar ofal cymdeithasol yn gyffredinol, fel esbonio'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol ac ystyried yr egwyddorion asesu. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i gymhwyso'r mathau o asesiadau a'u pwrpas yn dda at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, gan gyrraedd band marciau 3 a 4. Nid oedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r awdurdod lleol neu'r pum elfen asesu neu ni roddwyd esboniad llawn ohonynt.

**(ch)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhestru'r rhwystrau y gallai plant a phobl ifanc eu profi o ran cael mynediad at ofal a chymorth. Fodd bynnag, nid oedd bob amser wedi'i gysylltu â gofal a chymorth neu â'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt, er y llwyddodd rhai ymgeiswyr i wneud hyn yn arbennig o dda, gan ennill marciau uchel am yr adran hon. Defnyddiodd yr ymgeiswyr a oedd wedi datblygu eu hatebion enghreifftiau penodol o'u lleoliadau gan ystyried amrywiaeth o rwystrau hefyd.

**(d)** **(i)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu esbonio pam mae gan rai plant anghenion gofal cymhleth ond nid oeddent bob amser yn gallu rhoi amrywiaeth ddigonol o enghreifftiau i ennill y marciau uchaf, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar ddau fath o anghenion gofal cymhleth, nad oedd yn ymateb i'r cwestiwn yn llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

**(ii)** Ni wnaeth llawer o ymgeiswyr ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn gan eu bod wedi methu â mynd i'r afael â'r geiriau gorchymyn allweddol neu wedi methu â chymhwyso'r ymateb at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt neu nodi sut mae'r lleoliad yn deall yr anghenion hyn ac wedyn yn ymateb iddynt. Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, dylai ymgeiswyr wahaniaethu rhwng deall ac ymateb. Dylai ymgeiswyr hefyd ehangu eu hesboniad drwy ei gwneud yn glir sut mae deall ac ymateb i'r anghenion cymhleth hyn o fudd i'r plant neu bobl ifanc wrth gyflawni eu canlyniadau personol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

**(a)** Aeth mwyafrif yr ymgeiswyr ati i archwilio'r polisïau cymdeithasol gwahanol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach hefyd, ond dim ond un ohonynt y gwnaeth rhai ymgeiswyr ei drafod gan felly gyfyngu ar y marciau y gallent eu hennill. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd rhai ymgeiswyr at y ffordd roeddent yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Byddai marciau uwch wedi cael eu rhoi am fwy o gysylltiadau uniongyrchol â'r effaith ar y sector gofal plant. Dim ond Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach y trafododd rhai ymgeiswyr, ac ni thrafodwyd amrywiaeth o bolisïau cymdeithasol eraill sy'n effeithio ar y sector gofal plant, gan unwaith eto gyfyngu ar y marciau y gallent eu hennill.

**(b)** Yn gyffredinol, esboniodd ymgeiswyr y newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru ond ni wnaeth pob ymgeisydd esbonio sut roeddent yn effeithio ar rolau ymarferwyr yn y sector. Nid esboniodd rhai y newidiadau o ran y ddarpariaeth felly nid oedd modd iddynt ennill marciau uwch. Er mwyn cyrraedd band marciau 4, mae angen iddynt esbonio'r newidiadau allweddol o ran y ddarpariaeth gofal plant.

**(c)** **(i)** Ni roddodd ymgeiswyr bob amser ddiffiniad craidd o ddiogelu ac yn aml roedd yr atebion yn rhy gyffredinol. Roedd yr ymgeiswyr hynny a gyflawnodd y bandiau marciau uwch yn gallu ystyried pam mae osgoi mathau penodol o gamdriniaeth, er enghraifft, corfforol, emosiynol/seicolegol, rhywiol, ariannol ac esgeulustod, yn angenrheidiol o ran amddiffyn plant.

**(ii)** Rhoddodd llawer o ymgeiswyr gynnig ar ddisgrifio cyfrifoldebau sefydliadau ond ni wnaethant bob amser ystyried cyfrifoldebau unigolion, neu gwnaethant ddrysu rhwng y ddau. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ddisgrifio sut roedd y cyfrifoldebau hyn yn dylanwadu ar ymarfer o fewn lleoliadau na chyfeirio at bolisïau neu weithdrefnau sy'n gysylltiedig â diogelu plant mewn lleoliadau neu recriwtio staff yn ddiogel. Dylai ymgeiswyr rannu eu hateb yn ddwy adran: (1) cyfrifoldebau unigolion; (2) cyfrifoldebau sefydliadau.

**(iii)** Trafododd mwyafrif yr ymgeiswyr nodau a rolau'r ddeddfwriaeth benodol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ond ni wnaeth rhai drafod sut y mae'n gwella lles plant a phobl ifanc. Trafododd rhai ymgeiswyr wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac nid oeddent fel petaent yn ymwybodol fod y ddeddfwriaeth benodedig yn newid a'i bod yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn. Trafododd rhai y Ddeddf Plant a thrafododd rhai ddeddfwriaeth gyffredinol sy'n gysylltiedig â diogelu.

**(ch)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu ystyried natur newidiol cymdeithas; ond, nid oedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio'n benodol at Gymru. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi ymchwil gwrthrychol o ran natur newidiol cymdeithas ond nid oeddent yn llunio barn am sut byddai hynny'n effeithio ar y sector gofal plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio ymchwil i lunio barn ar sail gwybodaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

1. Ar gyfer Tasg 1 (a), dylai ymgeiswyr sicrhau yr ymdrinnir yn llawn ag effeithiau posibl methu â bodloni anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc er mwyn cyrraedd band 3.

2. Ar gyfer Tasg 1 (c) (i), er mwyn cyrraedd Band 4, dylai ymgeiswyr rannu eu gwaith yn ddwy adran: (1) canolbwyntio ar y lleoliad penodol a'r mathau o asesu a ddefnyddiwyd yn y lleoliad hwnnw a'u pwrpas ac ystyried sut y gallai fodloni anghenion penodol a darparu cefnogaeth priodol, amserol a pharhaus; a (2) esbonio'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol ac ystyried yr egwyddorion asesu.

3. Dylai ymgeiswyr Tasg 2 (b) sicrhau eu bod yn esbonio effaith y newidiadau ar rôl ymarferwyr.

4. Ar gyfer Tasg 2 (c) (ii), gallai ymgeiswyr rannu eu hatebion yn ddwy adran: (1) cyfrifoldebau unigolion; a (2) cyfrifoldebau sefydliadau.

5. Ar gyfer Tasg 2 (c) (iii), dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o nodau a rôl y darn penodol o ddeddfwriaeth/menter sy'n newid ac yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ym mis Rhagfyr gan CBAC ac mai dim ond y darn hwnnw a gaiff ei drafod ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**

**Haf 2023**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**UNED 5 – SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION**

## Sylwadau Cyffredinol

Roedd yn braf gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau am eu hymatebion oherwydd eu bod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaeth seicolegol. Roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud defnydd effeithiol o'r astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw (a oedd yn ymwneud ag Adran A y papur), ynghyd â'r Wybodaeth Ymlaen Llaw, fel sail i'r hyn a adolygwyd ganddynt. Nid oedd yn ymddangos bod y gallu i reoli amser wedi effeithio ar berfformiad, gan awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i baratoi.

Yn gyffredinol, roedd ymatebion ymgeiswyr yn dangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig priodol ar gyfer TAG. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn dda gan y rhan fwyaf ar draws y papur. Prin iawn y gwelwyd llawysgrifen annarllenadwy.

Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchymyn y cwestiwn o ddechrau eu hymatebion. Os nad ydynt yn mynd i'r afael yn drylwyr â'r gair gorchymyn, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn mynd i'r afael â gofynion y cwestiynau, ond ni wnaeth rhai ymdrin â'r cwestiwn yn y ffordd angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd rhai ymatebion i gwestiynau yn awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng y damcaniaethau seicolegol a'r dulliau gweithredu yn seiliedig ar y damcaniaethau hynny yn arbennig wrth gyfeirio at Cw2b a Cw5. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi nid yn unig drwy feddu ar ddealltwriaeth hyderus o'r damcaniaethau seicolegol ond hefyd sut y caiff y damcaniaethau hyn eu defnyddio fel rhan o wahanol ddulliau. Gellir hwyluso hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Adran A** – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw.

**Cw.1** Yn gyffredinol, roedd y perfformiad ar gyfer y cwestiwn hwn yn dda, gyda'r rhan fwyaf o'r marciau a enillwyd rhwng 15 ac 18. Amrywioldeb yn ansawdd yr ymatebion yn hytrach na diffyg gwybodaeth oedd y rheswm dros golli marciau.

© WJEC CBAC Ltd.

**(a)** Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ffactorau sy'n gallu hyrwyddo gwydnwch, gan lwyddo i ennill y marciau llawn.

**(b)** Cafwyd ymateb cymysg gan ymgeiswyr gyda'r rhan fwyaf yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o gam olaf damcaniaeth seicolegol Erickson a rhai ymgeiswyr yn defnyddio Gloria i egluro eu hymateb.

**(c)** Dangosodd ymatebion fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r defnydd ymarferol o'r Cynllun Glöyn Byw a dealltwriaeth gyffredinol gadarn o sut y gallai'r cynllun Glöyn Byw helpu i ddarparu gofal a chymorth i Gloria.

**Cw2** **(a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn ac amgyffrediad cyffredinol gadarn drwy roi disgrifiadau da o sut byddai Rita yn gallu defnyddio ioga neu fyfyrdod i reoli straen.

**(b)** Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn ymdrin â damcaniaeth wybyddol mewn ffordd syml. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch yn gallu cymhwyso damcaniaeth wybyddol at y dull cysylltiedig a rhoi barn resymegol o ran sut y gellid defnyddio'r dull gwybyddol i helpu Rita i reoli ei theimladau. Roedd yn braf gweld bod rhai ymgeiswyr wedi cyfeirio at ddamcaniaethau damcaniaethwyr gwybyddol gwahanol (Piaget, Vygotsky, Bruner) i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr.

**(c)** Cafwyd ymatebion cymysg. Ni roddodd rhai ymgeiswyr lawer o sylw i'r ferf gorchymyn, "cyferbynnwch", sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymatebion nodi ac esbonio/gwneud sylwadau ar y gwahaniaethau rhwng y dull gwybyddol a'r dull seicodynamig ar gyfer cwnsela. Dangosodd ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch farnau rhesymegol am y gwahaniaethau rhwng y dull gwybyddol a'r dull seicodynamig gan ymdrin â'r ddau ddull yn drylwyr.

**Adran B**

**Cw.3** **(a)** Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r ffactorau fyddai wedi gallu achosi i ymddygiad Rebecca ddirywio, gan wneud defnydd da o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad ac ennill marciau llawn.

**(b)** Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da iawn a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ac amgyffrediad hyderus o'r Dull Adferol a sut y byddai'n gallu helpu i ddatrys y sefyllfa rhwng Rebecca a'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref.

**(c)** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â 2.3 (a) y fanyleb. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn darparu dadansoddiad da, gyda barnau dilys ar y cyfan am effaith defnyddio dull yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog wrth ddelio ag ymddygiad heriol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr enghreifftiau o ddulliau gwahanol.

**Cw.4** **(a)** Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i ennill marciau llawn drwy ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r ffactorau fyddai wedi gallu dylanwadu ar benderfyniad Ahmed i stopio ysmygu, gan wneud defnydd da o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)** Roedd yr ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiadau da o sut mae ymuno â grŵp hunangymorth yn gallu helpu unigolyn i stopio ysmygu gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn.

**(c)** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â 2.5.2 (a) y fanyleb, Damcaniaeth Ymddygiad: Pavlov, Skinner/Watson. Rhoddodd y rhan fwyaf o ymatebion esboniad sylfaenol, gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth ymddygiad.

Fodd bynnag, ni wnaeth rhai ymatebion ddefnyddio'r ddamcaniaeth ymddygiad i esbonio sut mae profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn gallu dylanwadu ar ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd.

**(ch)** Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i ddarparu dadansoddiad da iawn â barnau rhesymegol, gan ddangos eu bod wedi ymdrin yn drylwyr â phwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch a sut y byddai datblygu gwydnwch yn gallu helpu Ahmed i stopio ysmygu.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3) gan ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio ac asesu. Roedd sillafu, atalnodi, gramadeg a'r defnydd o derminoleg pwnc-benodol yn cael eu hasesu yn yr ymatebion hefyd.

**AA1**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r dull dyneiddiol ac yn gallu disgrifio rhai o'r nodweddion allweddol ond yn aml, dim ond disgrifio damcaniaethau sylfaenol Maslow a Rogers a wnaed yn hytrach na'u cysylltu â'r dull.

Darparodd yr ymgeiswyr a gafodd farciau uwch ddisgrifiadau manylach o'r dull dyneiddiol ac roedd yn galonogol gweld rhai disgrifiadau ardderchog gyda rhai ymgeiswyr yn cyrraedd

Band Marciau 4.

**AA3**

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion wedi'u mynegi'n ddigonol ac yn dangos barnau dilys ar y cyfan am ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol a defnyddiodd sawl ymateb Rhys fel enghraifft. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg cywir. Roedd yr ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda yn bennaf. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi defnyddio terminoleg pwnc-benodol yn gywir.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol

### Haf 2023

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 6: CEFNOGI OEDOLION I GYNNAL IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH

**Sylwadau Cyffredinol**

Cafodd yr holl waith di-arholiad a aseswyd ei uwchlwytho'n electronig eleni. Roedd y rhan fwyaf ohono wedi'i gadw mewn trefn resymegol a oedd yn syml ei defnyddio. Mewn nifer bach o achosion, roedd y gwaith a uwchlwythwyd yn aneglur ac yn anodd i'w ddarllen. Llwyddodd pob canolfan i fodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith ac roedd y gwaith wedi'i ddilysu gan ymgeiswyr.

Roedd anodiadau canolfannau ar y gwaith yn amrywio o ran manylder, byddai anodiadau manylach er mwyn cyfiawnhau sut y cafodd y marciau eu rhoi yn hwyluso'r broses gymedroli mewn rhai achosion. Roedd y ddwy dasg yn hygyrch i'r ymgeiswyr. Cyflwynwyd Tasg 1 ar ffurf PowerPoint yn y rhan fwyaf o achosion ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi ysgrifennu nodiadau ychwanegol er mwyn dangos dealltwriaeth dda. Ymchwiliwyd i amrywiaeth dda o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwelwyd ymarfer da wrth i ymgeiswyr ysgrifennu esboniad o'u lleoliad ar ddechrau Tasg 1, gan gynnig ffocws da ar gyfer gweddill y dasg.

Gall rhai rhannau o Dasg 1 fod yn gyffredinol a fyddai'n gallu rhoi cyfle i ymgeiswyr ehangu eu gwaith ysgrifennu heb fod wedi'u cyfyngu i'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

Cyflwynodd bron pob canolfan waith a oedd yn bodloni'r canllaw 40 awr a argymhellir.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Tasg 1: Dewisodd pob ymgeisydd leoliad priodol ar gyfer y dasg hon, gyda llawer yn gwneud ymchwil i ddarpariaeth leol ac yn cyfeirio at hynny drwyddi draw; roedd hyn yn dangos gallu da i gymhwyso gwybodaeth. Er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd y bandiau marciau uwch, mae'n hanfodol bod adran b (ii) yn dangos esboniad clir o effaith trawsnewidiadau bywyd, profiadau a newidiadau ar oedolion yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, er y gallai esboniadau cyffredinol helpu ymgeiswyr y mae eu lleoliadau yn cyfyngu arnynt.

Yn adran (c), dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r mathau o asesu a chynhwysodd llawer ohonynt gynlluniau gofal. Dylid annog ymgeiswyr sy'n cyrraedd y bandiau marciau uwch i gynnwys y pum elfen asesu ac i ymdrin â phwysigrwydd cymorth amserol a phriodol.

Cwblhawyd adran (ch) yn dda, gyda llawer o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth o rwystrau i gael mynediad at ofal a chymorth, a'r rhan fwyaf yn cymhwyso'r rhain yn gywir at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

Rhoddodd ymgeiswyr enghreifftiau da o anghenion gofal cymhleth yn adran (d), byddai cysylltiadau manylach â'r lleoliadau yn gwella'r gwaith yn yr adran hon ymhellach.

Tasg 2:

Dangosodd ymgeiswyr dystiolaeth o ymchwil manwl i bolisi cymdeithasol yng Nghymru. Dylid annog pob ymgeisydd i gynnwys *Cymru Iachach* yn yr adran hon.

Dangosodd Adran (b) o Dasg 2 ddealltwriaeth a dadansoddiad da er y byddai mwy o ffocws ar oblygiadau newidiadau ar swyddi newydd i ymarferwyr wedi gwella gwaith ymgeiswyr yn yr adran hon.

Trafododd ymgeiswyr bwysigrwydd diogelu yn dda, gan ysgrifennu'n fanwl am gyfrifoldebau ymarferwyr wrth weithio gydag oedolion agored i niwed ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn nifer bach o achosion, ysgrifennodd ymgeiswyr am y ddeddfwriaeth anghywir a ddynodwyd ar gyfer adran (c) (iii). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn newid bob blwyddyn, a dylai canolfannau gyfeirio at ddatganiad CBAC ar y wefan ddiogel ym mis Rhagfyr er mwyn cael gwybod y ddeddfwriaeth gywir y dylai ymgeiswyr ei hastudio ar gyfer pob cyfres asesu.

Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i nodi newidiadau perthnasol yn y gymdeithas, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu llunio peth barn am effaith y newidiadau hyn ar iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai annog gwaith ysgrifennu mwy dadansoddol yn helpu'r ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd y bandiau marciau uwch.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Sicrhau bod pob rhan o'r gwaith wedi'i hanodi gan gynnwys gwybodaeth i gyfiawnhau ble a sut y caiff marciau eu rhoi. Gwahanu a labelu pob adran yn y tasgau er mwyn sicrhau eglurder.
- Annog ymgeiswyr i drafod y lleoliad a ddewiswyd ganddynt ar ddechrau Tasg 1 fel eu bod yn canolbwyntio ar y lleoliad drwyddi draw.
- Osgoi rhestrau a phwyntiau bwled yn yr adrannau lle mae angen i ymgeiswyr esbonio, trafod, dadansoddi a gwerthuso gan fod hyn yn cyfyngu ar y gwaith ysgrifennu. Annog ymgeiswyr i lunio barn a chymhwyso gwybodaeth yn yr adrannau hyn.
- Annog ymgeiswyr i ddefnyddio dulliau cyfeirnodi clir ar ddiwedd eu gwaith, neu drwyddi draw.
- Parhau i gynhyrchu tasgau manwl a diddorol wedi'u cyflwyno'n dda y flwyddyn nesaf.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.